***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Paragraff 1. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## DEUNYDD CYMWYS: DEUNYDDIAU PENODEDIG AC AMODAU

*Cyffredinol*

1 Mae'r Tabl yn nodi—

(a) yn yr ail golofn, y deunyddiau sydd wedi eu pennu at ddibenion gofyniad 1 yn adran 15;

(b) yn y drydedd golofn, yr amodau (os oes rhai) sy'n gymwys mewn perthynas â'r deunyddiau at ddibenion gofyniad 2 yn yr adran honno.

TABL

| Grŵp | Deunyddiau | Amodau |
|---|---|---|
| 1 | Creigiau a phridd | Eu bod yn digwydd yn naturiol |
| 2 | Deunydd cerameg neu goncrit | |
| 3 | Mwynau | Eu bod wedi eu prosesu neu eu paratoi |
| 4 | Slag ffwrnais | |
| 5 | Lludw | |
| 6 | Cyfansoddion anorganig actifedd isel | |
| 7 | Calsiwm sylffad | 1. Bod y drwydded amgylcheddol sy'n ymwneud â'r safle y gwaredir y deunydd ynddo yn awdurdodi gwarediadau tirlenwi o wastraff nad yw'n beryglus yn unig.<br>2. Bod y deunydd yn cael ei waredu mewn cell nad yw'n cynnwys unrhyw wastraff bioddiraddadwy. |
| 8 | Calsiwm hydrocsid a heli | Ei fod wedi ei waredu mewn ceudod heli |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Paragraff 1.